**Grwp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad**
**Economy, Treasury and Constitution Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
a Gweinyddiaeth Gyhoeddu
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

14 Mawrth 2023

Annwyl Gadeirydd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Chwefror yn gofyn am fanylion am y cam yr ydym wedi'i gyrraedd yn ein proses diwydrwydd dyladwy (mewn perthynas â chynigion a gyflwynwyd gan gynrychiolwyr y Dyn Gwyrdd), a'r amserlen ar gyfer gwneud penderfyniadau ar ddefnyddio Fferm Gilestone yn y dyfodol.

Mae ein gwaith diwydrwydd dyladwy ar gamau olaf yr asesiad a'n nod yw cyflwyno cyngor ac opsiynau i Weinidogion erbyn diwedd y mis hwn. Gan ddibynnu ar yr opsiwn a gytunwyd gan Weinidogion, mae'n bosibl y bydd angen gwneud rhagor o waith cyn y gellir gwneud penderfyniad terfynol.

Rwy'n sylweddoli y bydd y Pwyllgor yn ystyried ei ddull o graffu ymhellach, a'i amseriad, o ystyried ei ddiddordeb mewn deall y broses benderfynu fel y mae'n ymwneud â Fferm Gilestone. Rwy'n barod i ddisgrifio'n fanylach y dull a ddefnyddiwyd gennym ar ôl i Weinidogion wneud penderfyniad terfynol ar y cynigion a gyflwynwyd gan gynrychiolwyr y Dyn Gwyrdd a chytuno ar y camau nesaf..

Gyda dymuniadau gorau.

Yn gywir

**Andrew Slade**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Economi, Trysorlys a Chyfansoddiad

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE